Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau trwy SAAd a SAAr

diweddarwyd Medi 2024

## Tudalen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Fiona Arnison AEF neu Liz Barry AEF

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024
Dyddiad adolygu arfaethedig: 01/09/27

**Rheoli fersiwn**

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Barry Norris | Ionawr 2013 | |
| 1.1 | Barry Norris | Ebrill 2013 | Mân ddrafftio |
| 2.0 | Barry Norris | Medi 2017 | Diwygiadau ar gyfer y trefniadau arolygu newydd o Fedi 2017 ymlaen |
| 3.0 | Fiona Arnison | Medi 2018 | Mân newidiadau i deitlau grid y FfGA; symud yr arweiniad ar brotocol y SAAd i Arolygwyr Cofnodol ac arolygwyr SAAd i ddogfen ar wahân |
| 3.1 | Fiona Arnison | Mawrth 2019 | Symud arweiniad y FfGA i ddogfen ar wahân, fel ei bod yn haws i arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr cofnodol gael ato |
| 3.2 | Fiona Arnison | Medi 2021 | Diweddarwyd i adlewyrchu dileu barnau crynodol ac is-raddau o arolygiadau, a chynnwys y meddylfryd arolygu |
| 4.0 | Fiona Arnison<br>Liz Barry | Medi 2024 | Diwygiadau ar gyfer trefniadau arolygu newydd o fis Medi 2024 |

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Dai Williams
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at dai.williams@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn 2009, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail anabledd, rhyw na hil.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heblaw logos yr adrannau) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

## Ffurflenni ac arweiniad Sicrhau Ansawdd

Cyflwynir ffurflenni SAAr a SAAd yn electronig drwy system a leolir ar y we yn defnyddio allrwyd Ystafell Arolygu Rithwir Estyn.

Mae'r radd A-D gyffredinol yn ymwneud ag arolygiadau dan arweiniad Contractwr. (Mae'r dangosydd Ie/Na yn ymwneud ag arolygiadau dan arweiniad AEF.)

Mae'r diffiniadau graddau fel a ganlyn:

A – yn bodloni'r gofynion ym mhob agwedd neu bron ym mhob agwedd;
B – yn bodloni'r gofynion, ond rhai mân ddiffygion;
C – yn bodloni'r gofynion, ond gydag ychydig ddiffygion pwysig;
D – nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion pwysig neu fethiannau difrifol iawn.

## Ffurflen sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr)

| Agwedd | Meini prawf | Sylw (lle bo'n briodol) |
|---|---|---|
| Paratoi a rheoli | Mae'r ACof yn paratoi, yn briffio ac yn rheoli'r tîm yn effeithiol | |
| | Mae'r ACof yn trefnu ystod addas o weithgarwch arolygu sy'n ystyried cyd-destun penodol y darparwr.<br>Mae ymarweddiad yr ACof yn cyfleu'r meddylfryd arolygu yn glir<br>Mae'r ACof yn sicrhau bod arolygwyr yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol gydag ymarferwyr trwy gydol yr arolygiad | |
| Sicrhau canfyddiadau cadarn yr arolygiad | Mae'r ACof yn hwyluso trafodaethau'r tîm yn dda | |
| | Mae'r ACof yn herio canfyddiadau'r tîm yn briodol | |
| | Mae'r ACof yn pwyso a mesur tystiolaeth ac yn cymhwyso protocolau gweithgarwch dilynol yn briodol | |
| Ffurflenni Mewnbwn Tîm (FfFT)FfMT a SA | Mae'r ACof yn defnyddio'r YAR a systemau'r FfFT yn briodol<br>Mae'r ACof yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm yn briodol | |
| | Mae'r ACof yn ymgysylltu'n llawn â'r broses SAAr | |
| Ymglymiad yr enwebai a'r tîm | Mae'r ACof yn cynnwys ac yn cynorthwyo aelodau'r tîm yn dda | |
| | Mae'r ACof yn ymgysylltu'n dda â'r enwebai a'r uwch arweinwyr<br>Mae'r ACof yn sicrhau bod yr enwebai yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm | |
| **Gradd SAAr gyffredinol** | **Yn bodloni'r gofynion**<br>**A/B/C/D**<br>**Ie / Na** | |
| | Meysydd i'w hystyried ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol | |

## Arweiniad ar ddyfarnu graddau SAAr

Mae Estyn yn mynnu bod yr holl Arolygwyr Cofnodol, p’un a ydynt yn Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract (AYG) neu’n AEF, yn cynnal arolygiadau o ansawdd da.

Ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AEF, mae cyfarwyddwyr cynorthwyol yn cynnal sampl o ymweliadau sicrhau ansawdd ag arolygiadau. Ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AYG, mae AEF yn cynnal sampl o ymweliadau sicrhau ansawdd ag arolygiadau. Mae’r broses sicrhau ansawdd yn sicrhau hyder y cyhoedd yn yr arolygiad, yn cynnwys hyder yn y ffordd y cynhelir yr arolygiad a meddylfryd y tîm arolygu, cywirdeb a dilysrwydd unrhyw werthusiadau Maes Arolygu lefel uchel, ac ansawdd cyffredinol arolygiadau ac adroddiadau Estyn. Maent hefyd yn ffynhonnell adborth werthfawr i’n helpu i wella ein dulliau arolygu yn barhaus a theilwra ein harweiniad a’n hyfforddiant.

O ganlyniad i’r ymweliad, bydd AEF yn dyrannu gradd sicrhau ansawdd gyffredinol i arolygiadau (SAAr) dan arweiniad AYG. Mae’r radd yn adlewyrchu’r cydbwysedd cyffredinol rhwng cryfderau a diffygion yn yr arolygiad. Yn ychwanegol, gallai AEF fod eisiau nodi a rhoi sylwadau ar gryfderau penodol ac unrhyw ddiffygion mewn agweddau ar arfer yr Arolygydd Cofnodol.

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu arweiniad cyffredinol a allai fod yn fuddiol i AEF ac AYG.

| **Paratoi a rheoli** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| Gwnaed y gwaith paratoi yn unol â'r graddfeydd amser | Ychydig o lithro wrth reoli amser o ran y paratoi ond dim effaith ar gyflawniad | Mae'r paratoi braidd yn araf, e.e. nid yw'r holl ddogfennau a gohebiaeth o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y pecynnau cymorth. Mae hyn yn creu rhywfaint o letchwithdod i'r tîm, y darparwr ac Estyn, a gallai arwain at orbryder gormodol. | Mae'r ffordd y mae'r ACof yn rheoli amser yn golygu nad yw'r drefn o baratoi gohebiaeth o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Mae hyn yn creu lletchwithdod sylweddol i'r tîm, y darparwr ac Estyn, ac yn golygu nad yw'r ACof wedi sicrhau bod yr holl gamau rhesymol wedi cael eu cymryd i atal gorbryder gormodol. |
| Mae dyraniad y cyfrifoldebau yn gwneud y defnydd gorau o'r tîm | Mae'r cyfrifoldebau'n iawn, ond y llwythi gwaith ychydig yn anghyfartal | Mae'r cyfrifoldebau'n rhy anghyfartal neu nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i brofiad aelodau'r tîm | Mae'r cyfrifoldebau'n rhy anghyfartal (neu nid ydynt yn gweddu'n ddigon da i brofiad aelod o'r tîm) ac yn creu problemau o ran ymdriniaeth a llwyth gwaith |
| Mae'r amserlen ar gyfer teithiau dysgu/arsylwadau gan aelodau'r tîm yn ei lle ac mae'r ACof yn ei haddasu'n hyblyg yn gysylltiedig â chyd-destun y darparwr a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg | Mae'r amserlen yn briodol ond ychydig yn gaeth, heb rywfaint o hyblygrwydd | Mae'r amserlen ar gyfer y diwrnod llawn cyntaf yn rhy fylchog ac mae aelodau'r tîm wedi drysu braidd ynghylch beth i'w wneud | Dim amserlen o deithiau dysgu/ arsylwadau / ymweliadau yn ei lle ar gyfer diwrnod llawn cyntaf yr arolygiad, ac aelodau'r tîm yn ansicr ynghylch beth i'w wneud |
| Yr holl gyfarfodydd perthnasol wedi'u nodi | Bron yr holl gyfarfodydd perthnasol wedi'u nodi | Ychydig o gyfarfodydd perthnasol wedi'u nodi | Dim cyfarfodydd perthnasol wedi'u nodi |
| Pawb ar y tîm yn dilyn disgwyliadau arolygwyr ac yn ymddwyn mewn ffordd addas o broffesiynol. Mae ymarweddiad yr ACof yn cyfleu'r meddylfryd arolygu yn dda. Mae'r ACof yn cefnogi aelodau'r tîm i gyfleu meddylfryd tebyg. Mae'r ACof yn sicrhau bod deialog bwrpasol a phroffesiynol ag ymarferwyr trwy gydol yr arolygiad. | Gallai un neu ddau o fân weithredoedd/sylwadau gan y tîm/Arolygydd Cofnodol arwain at feirniadaeth, ond nid i'r graddau bod hynny'n tanseilio hyder yn y tîm neu eu canfyddiadau. Yn gyffredinol, mae'r tîm yn cyfleu'r meddylfryd arolygu yn briodol ac yn cymryd rhan yn briodol mewn deialog broffesiynol gydag ymarferwyr. | Gweithredoedd/sylwadau gan aelod(au) o'r tîm yn dechrau tanseilio hyder ym mhroffesiynoldeb y tîm (h.y. ddim yn cyflawni 'disgwyliadau arolygwyr'). | Gweithredoedd/sylwadau gan y tîm yn debygol iawn o arwain at feirniadaeth ac at danseilio hyder ym mhroffesiynoldeb y tîm a/neu ganfyddiadau'r arolygiad. Nid yw ymarweddiad yn gyson â'r meddylfryd |

| Yn gyffredinol, arolygiad trefnus wedi'i gynnal yn dda lle mae popeth yn digwydd fel y dylai wneud | Yn gyffredinol, mae'r arolygiad yn rhedeg yn dda, ond mae ychydig o fân bethau a allai dynhau ei drefniadaeth a'i reolaeth | Yn gyffredinol, arolygiad lle mae gwendidau neu ymddygiadau trefniadol sy'n dechrau effeithio ar y modd y cynhelir yr arolygiad | Yn gyffredinol, arolygiad lle mae gwendidau ac ymddygiadau trefniadol pwysig sy'n tanseilio'r modd y cynhelir yr arolygiad |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau canfyddiadau arolygu trylwyr** | | | |
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| Mae'r canfyddiadau arolygu yn sicr yn sgil eu herio'n briodol gan yr Arolygydd Cofnodol a'r tîm | Mae'r canfyddiadau arolygu yn sicr ar y cyfan, ond nid ydynt bob amser yn cael eu herio'n briodol gan yr Arolygydd Cofnodol a/neu'r tîm | Mae'r canfyddiadau arolygu yn cael eu derbyn gormod heb eu hamau, ac mae'r diffyg herio yn dechrau tanseilio hyder yn y canfyddiadau arolygu | Un neu fwy o'r prif werthusiadau yn amlwg yn rhy hael neu'n rhy llym, ac nid ydynt yn cael eu herio'n ddigonol gan yr Arolygydd Cofnodol a/neu'r tîm |
| Mae'r canfyddiadau arolygu yn cyfateb i'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella | Nid yw'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn hollol iawn mewn ychydig o achosion | Mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn gogwyddo'n amhriodol mewn gormod o achosion | Mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn amlwg yn anghywir ac yn tanseilio'r canlyniad arolygu a dilysrwydd y crynodeb |
| Mae'r tîm yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, lle y bo'n briodol | Nid yw'r rhesymau dros nodi arfer sy'n werth ei rhannu yn gwbl glir bob tro | Nid yw'r rhesymau dros arfer sy'n werth ei rhannu yn ddigon clir ym mhob achos | Mae'r penderfyniad i ofyn i'r darparwr baratoi astudiaeth achos (sbotolau) o arfer ddiddorol neu arloesol yn ymddangos yn anghyson, heb dystiolaeth i'w chadarnhau |
| Mae pob un o'r datganiadau gwerthusol yn cyfateb i feini prawf y fframwaith arolygu ac yn mynd i mewn i adrannau priodol yr adroddiad | Mân achosion o gamosod cynnwys gwerthusol yn yr adborth llafar i'r darparwr a'r adroddiad terfynol | Camosod cynnwys gwerthusol yn fwy sylweddol yn yr adborth llafar i'r darparwr a'r adroddiad terfynol | Hepgoriadau sylweddol a/neu wyriadau o arweiniad y fframwaith |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol yn ystyried y lefel briodol o weithgarwch dilynol gan ddefnyddio arweiniad yn addas | Mae'r Arolygydd Cofnodol yn ystyried lefel briodol o weithgarwch dilynol, ond nid yw'r broses a'r drafodaeth wedi eu datblygu'n llawn yn unol â'r arweiniad | Mae'r Arolygydd Cofnodol yn ystyried yr arweiniad yn llawn, ond yn ei gam-gymhwyso ac yn llunio canlyniad amhriodol neu nid yw'r ACof yn dilyn y protocol cytunedig ar gyfer trafod gweithgarwch dilynol | Mae'r Arolygydd Cofnodol yn ystyried lefel amhriodol o weithgarwch dilynol ac nid yw'n dilyn yr arweiniad yn gywir. Mae'r drafodaeth naill ai'n rhy fyr neu'n rhy anhygyrch i'r enwebai ddeall y canlyniad arolygu |

| **Yn gyffredinol, arolygiad lle teimlwch fod gwaith yr Arolygydd Cofnodol yn gwneud yn siŵr bod y canfyddiadau arolygu yn union gywir** | **Yn gyffredinol, arolygiad lle teimlwch fod y canfyddiadau'n briodol, ond nid yw'r Arolygydd Cofnodol bob amser yn sicrhau nac yn profi'r sail dystiolaeth yn ddigon cadarn** | **Yn gyffredinol, arolygiad lle nad yw'r Arolygydd Cofnodol yn herio digon ac mae hygrededd y gwerthusiadau yn cael ei danseilio braidd** | **Yn gyffredinol, arolygiad lle mae hygrededd y gwerthusiadau a gwaith yr Arolygydd Cofnodol yn amheus a lle mae'r canfyddiadau yn annhebygol o wrthsefyll craffu trwyadl gan y cyhoedd** |
|---|---|---|---|
| **Ffurflenni Mewnbwn Tîm (FfMT)** | | | |
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| FfMT yn bresennol yn yr YAR yn y fformat cywir ac wedi'u coladu'n gywir | FfMT yn y fformat cywir, ond gyda mân ddiffyg, e.e. mae gan un enw ffeil lle mae'r enw wedi newid o'r gwreiddiol | FfMT yn y fformat cywir, ond gydag ychydig o fân ddiffygion. Ni rennir FfMT wedi'u coladu yn ystod yr arolygiad, felly nid yw aelodau'r tîm yn ymwybodol o waith arolygwyr eraill | Nid yw'r FfMT yn yr YAR neu maent yn y fformat anghywir. Mae enw mwy nag un ffeil wedi'i newid neu mae tagiau wedi cael eu colli. Nid yw'r ACof yn coladu'r FfMT yn ystod yr arolygiad i gael trosolwg o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod gan y FfMT dystiolaeth ategol briodol i gefnogi pob un o'r prif werthusiadau. | Mae un neu ddwy adran tystiolaeth ategol ychydig yn brin ond maent yn dal i gefnogi'r prif werthusiad | Cynnwys y dystiolaeth ategol yn dibynnu gormod ar dorri a gludo o ddogfennau'r ysgol/darparwr. Nid yw'r dystiolaeth wedi'i hamlinellu'n ddigon clir i allu chwilio ar y gronfa ddata. | Gormod o dystiolaeth ategol yn eisiau, neu mae mor brin ei bod yn tanseilio hyder yn y prif werthusiad |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod cynnwys priodol yn y FfMT | FfMT yn cynnwys gwybodaeth briodol, ond â mân ddiffygion, e.e. maent yn cynnwys enwau unigolion | Cynnwys priodol yn y FfMT gan mwyaf, ond mae sylwadau sy'n rhy anffurfiol neu'n dangos rhywfaint o ragfarn | FfMT yn cynnwys gormod o gynnwys amhriodol neu ddim cynnwys, neu maent yn dibynnu gormod o lawer ar dorri a gludo o'r AHA heb fawr o ddilysu/heb ddilysu o gwbl |

| Yn gyffredinol, mae’r Arolygydd Cofnodol yn gwneud yn siŵr bod y tîm yn bodloni holl ofynion y FfMT; dim gwaith pellach yn ofynnol | Yn gyffredinol, prosesau’r FfMT yn addas, ond un neu ddau o ddiffygion yng nghynnwys y FfMT; angen ychydig o dacluso | Yn gyffredinol, prosesau’r FfMT yn iawn, gan mwyaf, ond y cynnwys yn dangos patrwm o ddiffygion sy’n adlewyrchu diffyg gofal a sylw i fanylion ond heb danseilio dilysrwydd neu ddibynadwyedd y FfMT yn gyffredinol | Yn gyffredinol, prosesau’r FfMT yn wan neu o ansawdd gwael, ac mae’r potensial yn y rhain i greu materion i Estyn mewn perthynas â gwaith adfer pellach neu fylchau yn y gronfa ddata arolygu |
|---|---|---|---|
| **Ymglymiad yr Enwebai a’r tîm** | | | |
| ***Yn bodloni’r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| Mae’r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod yr enwebai yn cael ei gynnwys yn dda yn yr arolygiad a’i fod yn mynychu pob cyfarfod tîm. Mae’n sicrhau bod yr enwebai yn deall y negeseuon ac yn egluro’r rhain ble mae angen, ond mae’n rheoli unrhyw amddiffynoldeb ar ran yr enwebai yn dda. | Mae’r enwebai’n cael ei gynnwys yn briodol, ond mae’n colli trafodaeth bwysig ar un adeg (e.e. trafodir addysgu y tu allan i’r cyfarfod tîm). Mae’r ACof yn caniatáu i’r enwebai ymyrryd mewn trafodaethau mewn ffordd amddiffynnol neu amhriodol. | Mae’r enwebai yn llwyr ymwybodol o’r broses arolygu, ond nid yw’n clywed pob trafodaeth bwysig am y canfyddiadau na’r prif werthusiadau, sy’n ymwneud ag ansawdd yr addysgu, er enghraifft. Nid yw’r ACof yn darparu cyfleoedd i wirio dealltwriaeth yr enwebai o’r drafodaeth. | Nid yw’r enwebai yn cael ei gynnwys digon a daw canfyddiadau’r arolygiad fel gormod o syndod. |
| Mae’r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod yr enwebai wedi darllen y llawlyfr enwebeion ac wedi ticio’r blwch priodol yn y ffurflen cyswllt cychwynnol. | Mae’r Arolygydd Cofnodol wedi gofyn i’r enwebai a yw wedi cwblhau’r hyfforddiant ar-lein, ond nid yw’r cofnod yn yr YAR yn gyflawn. | Mae’r ACof yn colli cyfleoedd i egluro rôl yr enwebai, ac nid yw’n ei gefnogi i gyflawni ei rôl yn ddigon gweithredol | Nid yw’r Arolygydd Cofnodol yn gofyn a yw’r enwebai wedi darllen y llawlyfr enwebeion ac wedi ticio’r blwch priodol. Nid yw’r enwebai’n cael cymorth ac eglurhad digon da gan yr Arolygydd Cofnodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod yr Arolygydd Cymheiriaid yn cael ei gynnwys yn dda iawn yn yr arolygiad a'i fod yn cael cefnogaeth dda iawn | Mae'r rheolaeth dros yr Arolygydd Cymheiriaid yn dda yn gyffredinol, ond mae rhai adegau pan allai'r Arolygydd Cymheiriaid fod wedi cael ei gynnwys yn llawnach | Yn gyffredinol, mae'r Arolygydd Cofnodol yn cefnogi'r Arolygydd Cymheiriaid yn dda, ond mae'r Arolygydd Cymheiriaid yn llunio canfyddiadau ar ei ben ei hun yn ormodol, ar wahân i weddill y tîm | Mae'r rheolaeth dros ymglymiad yr Arolygydd Cymheiriaid yn wael yn gyffredinol, ac mae'r Arolygydd Cymheiriaid yn gweithio ar ei ben ei hun gormod. |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael cyfleoedd addas i gyfrannu at drafodaethau'r tîm am feysydd allweddol fel addysgu a dysgu. Mae'n rheoli'r drafodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn sicrhau bod yr enwebai'n deall y syniadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm. | Yn gyffredinol, mae'r Arolygydd Cofnodol yn rheoli trafodaethau'r tîm yn dda, er y gallai golli cyfleoedd achlysurol i annog cyfraniadau gan arolygwyr tawelach trwy holi atodol, neu i atal un aelod o'r tîm rhag dominyddu'r drafodaeth yn ddiangen. | Nid yw'r Arolygydd Cofnodol yn rheoli trafodaethau'r tîm yn ddigon effeithlon, yn enwedig ynghylch addysgu a dysgu yn gyffredinol. Mae'n colli gormod o gyfleoedd i sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cyfrannu eu canfyddiadau yn ystyrlon. | Nid yw ansawdd trafodaethau'r tîm yn ddigon da, e.e. gallai'r cyfarfod tîm fod naill ai'n rhy hir neu'n rhy arwynebol, neu gallai'r Arolygydd Cofnodol ddominyddu gormod yn y cyfarfod. O ganlyniad, mae'r enwebai'n ansicr ynglŷn â chanfyddiadau'r tîm a'r rhesymau y tu ôl i'r prif werthusiad neu'r canlyniad arolygu. |
| **Gradd SAAr gyffredinol** | | | |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| **Yn gyffredinol, arolygiad sy'n rhedeg yn dda iawn, gyda gwerthusiadau sicr, defnydd priodol o'r system FfMT ac ymglymiad da gan bawb dan sylw.** | **Yn gyffredinol, arolygiad lle mae rhai mân lithriadau yma ac acw, ond dim byd sy'n tanseilio rhediad cyffredinol yr arolygiad na sicrwydd y gwerthusiadau.** | **Yn gyffredinol, arolygiad lle mae braidd gormod o fân ddiffygion ac mae'r rhain yn dechrau codi cwestiynau ynghylch ansawdd yr arolygiad yn gyffredinol.** | **Yn gyffredinol, arolygiad gwan sy'n debygol o ddenu beirniadaeth neu gŵyn, a thanseilio hyder yn y canlyniadau arolygu.** |

## Sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAd)

| **Agwedd** | **Meini prawf** | **Sylw (lle bo'n briodol)** |
|---|---|---|
| Ffurflen Mewnbwn Adrodd (FfMA) a'r YAR | Mae'r ACof yn defnyddio systemau'r YAR/FfMA yn dda ac yn coladu canfyddiadau'n rheolaidd | |
| | Mae'r ACof yn sicrhau bod holl adrannau'r FfMA yn cael eu llenwi | |
| Yr adroddiad ysgrifenedig | Mae'r crynodeb yn gydlynol ac yn adlewyrchu'r prif ganfyddiadau'n dda. Mae'n creu cysylltiadau clir rhwng arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion, ac yn nodi 'achos ac effaith' yn briodol. | |
| | Mae'r argymhellion yn briodol ac yn deillio o'r gwerthusiadau a'r crynodeb | |
| | Mae lefel y gweithgarwch dilynol yn briodol ac yn dilyn protocolau cytunedig | |
| | Mae tystiolaeth, yn cynnwys defnydd o holiaduron, yn cefnogi gwerthusiadau ar draws y tri Maes Arolygu | |
| | Mae'r canfyddiadau drwy'r adroddiad yn gyson yn fewnol | |
| Cyflwyniad | Mae'r ysgrifennu'n cydymffurfio â gofynion Estyn | |
| | Mae'r ACof yn ymroi'n bwrpasol i'r broses SAAd | |
| | | |
| **Gradd SAAd gyffredinol** | **Gradd A/B/C/D neu Ie / Na** | |
| | Meysydd i'w hystyried ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol | |

## Arweiniad ar b’un a yw ffurflen mewnbwn adrodd yn bodloni’r gofynion (barn SAAd)

Ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AYG ac AEF, mae AEF yn dyrannu gradd sicrhau ansawdd gyffredinol i adroddiadau (SAAd). Mae’r graddau hyn (A-D neu Ie/Na) yn adlewyrchu’r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i’w gwella yn yr adroddiad arolygu, a’r dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi canfyddiadau’r adroddiad, h.y. yn y Ffurflen Mewnbwn Adrodd (FfMA). Dylai AEF amlygu cryfderau a meysydd i’w gwella yn y FfFMA (gan ddefnyddio *Track Changes*) yn ystod y cam golygu, cymedroli a dilysu, i’w hystyried ymhellach gan yr Arolygydd Cofnodol.

Mae Estyn yn mynnu bod Arolygwyr Cofnodol yn cynhyrchu FfMA ac adroddiadau o ansawdd da. Bydd unrhyw ddiffygion mewn ansawdd ar gyfer arolygiad dan arweiniad AEF yn cael eu trafod gyda’r AEF, ac yn cael eu darganfod trwy ein trefniadau rheoli perfformiad, lle bo’n briodol. Lle mae’r ffurflen mewnbwn adrodd ar gyfer arolygiad dan arweiniad AYG yn cynnwys diffygion difrifol, bydd yn methu bodloni gofynion Estyn, ac mae’n debygol y bydd gradd D neu N yn gyffredinol yn cael ei dyfarnu iddi.  Diffyg difrifol yw gwendid sylweddol yn y FfMA neu’r adroddiad arolygu sy’n effeithio ar gywirdeb y gwerthusiad cyffredinol, a/neu lefel y gweithgarwch dilynol, neu mae’n amharu’n sylweddol ar ansawdd cyffredinol y FfF Adrodd neu’r adroddiad.

Mae diffyg difrifol yn tanseilio hyder yn y canlynol:

- cywirdeb a dilysrwydd unrhyw werthusiad lefel uchaf ar gyfer Maes Arolygu neu lefel gweithgarwch dilynol, a/neu
- ansawdd cyffredinol arolygiadau ac adroddiadau Estyn

Bydd AEF yn llenwi’r ffurflen SAAd berthnasol cyn anfon yr adroddiad drafft i’r ysgol / darparwr ar gyfer gwiriad ffeithiol.  Mae cam golygu, cymedroli a dilysu’r ffurflen SAAd yn digwydd cyn ei chyhoeddi ar wefan Estyn.

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu arweiniad cyffredinol pellach i gefnogi dyrannu gradd SAAd gyffredinol ar gyfer arolygiadau dan arweiniad AYG. Gallai fod o gymorth i AEF, AYG ac Arolygwyr Cofnodol.

| Ffurflenni mewnbwn adrodd / Yr adroddiad ysgrifenedig | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| Mae'r gwerthusiadau yn sicr iawn ac yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan dystiolaeth briodol | Mae'r gwerthusiadau yn sicr ym mhob agwedd bron ond ar y ffin weithiau o ran y dystiolaeth a ddarparwyd | Mae'r gwerthusiadau yn agos at fod yn sicr ond mae'r sail dystiolaeth yn brin mewn gormod o adrannau fel nad oes modd bob amser gweld y cysondeb mewnol rhwng y crynodeb, y canlyniad (gweithgarwch dilynol), y gwerthusiadau a'r dystiolaeth | Nid yw'r gwerthusiadau yn sicr am nad yw'r Arolygydd Cofnodol wedi pwyso a mesur y dystiolaeth yn briodol neu mae diffyg tystiolaeth i gefnogi llawer o'r datganiadau, neu mae'n amlwg nad yw'r crynodeb a lefel y gweithgarwch dilynol yn gyson mewn perthynas â'r dystiolaeth yn y FfMA |
| Mae'r dystiolaeth a'r crynodeb yn cyfateb yn dda iawn i'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella, ac maent yn gyson ar draws y FfMA | Mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn cael ei adlewyrchu'n gywir, ar y cyfan, yn y gwerthusiadau a'r sylwadau yn y FfMA. Gallai fod yna anghysondeb achlysurol rhwng y crynodeb a'r negeseuon trosfwaol ym mhrif werthusiad/werthusiadau'r adroddiad | Mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella fwy neu lai'n iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwerthusiadau, ond yn amhriodol mewn rhai ohonynt. Nid yw'r crynodeb yn cyfateb i'r gwerthusiadau yn ddigon da ar gyfer ychydig o'r agweddau | Mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a meysydd i'w gwella yn amlwg yn anghywir. Mae anghysondeb sylweddol ar draws y FfMA. |
| Mae'r gwerthusiadau yn cyfateb i'r meini prawf yn y fframwaith arolygu a chaiff unrhyw wyriadau eu hesbonio'n llawn | Mae'r gwerthusiadau yn cyfateb i'r meini prawf ym mhob achos bron, a nodir gwyriadau | Mae'r rhan fwyaf o'r gwerthusiadau yn cyfateb i'r meini prawf, er nad yw unrhyw wyriadau'n cael eu hesbonio'n llawn bob amser | Nid yw'r gwerthusiadau yn dilyn y meini prawf arolygu. Nid ydynt yn cael eu hesbonio'n ddigon clir yn yr adroddiad na thrwy'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd |
| Mae lefel y gweithgarwch dilynol yn briodol ac yn cael ei hesbonio'n llawn o fewn y 'rhesymau dros weithgarwch dilynol' yn y FfMA | Mae lefel y gweithgarwch dilynol yn briodol ond ni chaiff ei hesbonio'n llawn yn y FfMA | Mae'n siŵr fod lefel y gweithgarwch dilynol yn briodol ond nid oes unrhyw esboniad gan yr Arolygydd Cofnodol i gysylltu canfyddiadau â'r lefel gweithgarwch dilynol – mae angen gwaith adferol gan yr Arolygydd Cofnodol | Mae lefel y gweithgarwch dilynol yn amlwg yn amhriodol ac nid yw'n dilyn protocolau'r arweiniad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae argymhellion wedi cael eu dewis yn dda ac maent yn hynod berthnasol. Maent yn deillio’n glir o destun y gwerthusiad, ac yn cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb. Mae nifer yr argymhellion yn briodol | Mae’r argymhellion yn briodol ac yn addas ar y cyfan. Maent yn deillio o destun y gwerthusiad. | Mae gormod o argymhellion, neu ddim digon. Yn gyffredinol, mae’r argymhellion yn deillio o destun y gwerthusiad, ond efallai nad ydynt yn cysylltu’n dynn â’r crynodeb, neu efallai nad y rhain yw’r rhai mwyaf perthnasol. | Nid yw’r argymhellion yn deillio’n glir o destun y gwerthusiad, a gallent fod yn amhriodol o ran nifer neu gynnwys. Nid yw’n ymddangos bod argymhellion yn berthnasol. |
| Mae pob un o’r datganiadau yn cyfateb i feini prawf ‘Beth rydym ni’n ei arolygu’ ac adrannau perthnasol yr adroddiad | Mae mân hepgoriadau | Mae’r adroddiad yn dilyn meini prawf ‘Beth rydym ni’n ei arolygu’, ond defnydd dethol o dystiolaeth a wneir ar brydiau | Mae hepgoriadau sylweddol mewn adrannau amrywiol o’r ffframwaith ac mae’r rhain yn tanseilio dilysrwydd a dibynadwyedd y canlyniadau arolygu |
| **Yn gyffredinol, adroddiad lle teimlwch fod y gwerthusiadau a’r crynodeb yn union gywir** | **Yn gyffredinol, adroddiad lle teimlwch fod y gwerthusiadau’n gadarn, ond gydag ansicrwydd neu anghysondeb ar brydiau** | **Yn gyffredinol, adroddiad lle mae’r gwerthusiadau a’r crynodeb yn iawn, yn gyffredinol, ond lle mae bylchau ac anghysonderau yn dechrau creu ansicrwydd ynghylch cadernid y canlyniadau arolygu** | **Yn gyffredinol, adroddiad lle mae’r gwerthusiadau a’r crynodeb yn wan iawn a byddent yn annhebygol o wrthsefyll craffu trylwyr gan y cyhoedd** |

| Cyflwyniad | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| Mae'r arddull yn eglur a phlaen gydag ychydig iawn o ddefnydd o'r goddefol a dim termau jargon | Defnydd achlysurol o'r goddefol a brawddegau sy'n or-gymhleth | Y negeseuon yn eglur, ond gormod o ddefnydd o jargon neu ailadrodd ar draws yr adroddiad | Yr arddull yn rhy ddwys neu brawddegau a chystrawen yn ddryslyd mewn gormod o fannau |
| Ychydig iawn o lithriadau/dim llithriadau o ran gramadeg, sillafu neu atalnodi | Camgymeriadau achlysurol, mân iawn o ran gramadeg, sillafu ac atalnodi | Tuedd o gamgymeriadau gramadegol, sillafu neu atalnodi mewn un neu fwy o adrannau | Camgymeriadau sylweddol o ran gramadeg, sillafu ac atalnodi trwy gydol y testun |
| Mae'r adroddiad yn cynnwys un llais/arddull sy'n treiddio drwy'r holl adrannau. Mae'r crynodeb yn crynhoi'r ysgol yn dda, ac yn cysylltu achos ac effaith yn gydlynus. | Mae'r adroddiad yn cynnwys un llais yn bennaf, ond mae un neu ddwy agwedd yn darllen yn wahanol i'r gweddill. Mae'r crynodeb yn briodol, ond efallai bod angen ailysgrifennu ychydig ohono i wella'r llif | Mae'r adroddiad yn cyfleu ei negeseuon yn rhesymol o dda, ond mae cymysgedd o leisiau o fewn yr adroddiad. Mae'r crynodeb yn 'glogyrnaidd', e.e. mae fel pe bai brawddegau wedi cael eu torri a'u gludo | Mae'r adroddiad yn gymysgedd o leisiau ac arddulliau heb fawr o gydlyniant neu ddim cydlyniant yn gyffredinol |
| Mae'r pwyslais ar werthuso yn hytrach na disgrifio, ac mae 'achos ac effaith' yn glir. | Ychydig gormod o ddisgrifio mewn mannau, ac nid yw hyn bob amser o gymorth i'r darllenydd (e.e. nid yw'n gysylltiedig ag argymhelliad na gwerthusiad o effaith) | Gormod o ddisgrifio heb ffocws mewn gormod o adrannau. Gallai'r cysylltiad rhwng y crynodeb, testun y werthusiad a'r argymhellion cysylltiedig fod yn ddisylwedd ar adegau. | Llawer gormod o ddisgrifio heb lawer o werthuso / dim gwerthuso. Nid yw argymhellion yn deillio'n glir o'r testun. |
| Yn dilyn y Canllaw Ysgrifennu ym mhob agwedd; ychydig iawn o sylw sydd ei angen yn y cam golygu | Ychydig o wyriadau o'r Canllaw Ysgrifennu (e.e. priflythrennau gwallus); ychydig o sylw sydd ei angen yn y cam golygu | Gwyriadau rheolaidd o'r Canllaw Ysgrifennu mewn un neu ddwy agwedd trwy gydol yr adroddiad, ac angen rhoi cryn dipyn o sylw iddynt yn y cam golygu | Llawer iawn o wyriadau yn gyson o'r Canllaw Ysgrifennu, ac mae angen rhoi llawer iawn o sylw iddynt yn y cam golygu |
| Pob adran yn gyflawn, wedi'u fformatio'n gywir ac yn y lle iawn | Camgymeriad fformatio bach yn achlysurol, er enghraifft, wrth osod pwyntiau bwled | Camgymeriadau mwy cyson | Mae adran o'r adroddiad yn eisiau neu mae yn y lle anghywir, neu mae'r fformatio yn amlwg yn anghywir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn gyffredinol, adroddiad nad oes angen fawr o olygu, neu ddim golygu o gwbl arno – adroddiad a allai, ar y cyfan, fynd allan fel ag y mae** | **Yn gyffredinol, adroddiad lle mae llithriadau achlysurol yn unig, ac mae angen eu tacluso cyn y byddech yn teimlo'n hapus ynglŷn â'i gyhoeddi** | **Yn gyffredinol, adroddiad y mae angen ei olygu'n ddwysach cyn ei gyhoeddi, neu'n cymryd llawer mwy o amser na'r amser a neilltuwyd i'r golygydd SA adolygu'r adroddiad. Mae llithriadau'n digwydd yn rhy gyson** | **Yn gyffredinol, adroddiad gwael, heb fawr o dystiolaeth o olygu cadarn a gofalus, sy'n debygol o danseilio hyder yn y canlyniadau arolygu pan gaiff/os caiff ei gyhoeddi. Mae angen cryn dipyn o waith yn ystod y broses SA** |